**Sesiwn 2001-2002 (22)**

**Dydd Iau, 18 Hydref 2001**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf

**9.24am**
**Cwestiynau Llafar i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Atebwyd y 6 chwestiwn cyntaf

**9.46am**
**Pwyntiau o Drefn:**

1. **Alun Cairns** o dan Reol Sefydlog 8.17 ynghylch cais a wnaethpwyd am bleidlais yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd y diwrnod cynt. Dywedodd **y Llywydd** mai mater i gadeiryddion y pwyllgorau, o dan Reol Sefydlog 8.17, yw penderfynu ar drafodion y pwyllgorau.
2. **Dafydd Wigley** a **Gareth Jones** o dan Reol Sefydlog 6.8 ynghylch datganiadau gan Weinidogion.
3. **Jocelyn Davies** o dan Reol Sefydlog 6.12, ynghylch gohirio’r ddadl ar y Strategaeth Wastraff i Gymru ar 16 Hydref.
4. **Phil Williams** o dan Reol Sefydlog 18.1 ar gamgymeriad a gofnodwyd ar dudalen 45 o Gofnod y Trafodion ar gyfer 16 Hydref 2001.
5. **Alun Pugh** ar amseroedd y Cyfarfodydd Llawn.

**10.05am**
***Cynigiodd y Trefnydd Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen* Dirprwyo Swyddogaethau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 *a* Dadl ar Sefydlu Comisiwn Dylunio i Gymru**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig Trefniadol:**

O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48

**Derbyniwyd y Cynnig Trefniadol**

***10.06am***
*Hysbysodd **y Llywydd** y Cynulliad y dylid, er mwyn osgoi ansicrwydd yn y dyfodol, gyflwyno gwelliannau i Gynigion Heb Ddyddiad Trafod a drafodir yn y Cyfarfod Llawn 1 awr ymlaen llaw i'w galluogi i gael eu hystyried yn briodol.*

**10.07am**
**Dirprwyo Swyddogaethau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000**

***NNDM790*** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi fersiwn drafft y Race Relations Act 1976 (General Statutory Duty) Order 2001 y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cartref yn bwriadu'i wneud wrth arfer ei bwerau o dan adran 71(5) o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000).

Gosodwyd copi o'r fersiwn drafft o'r *Race Relations Act 1976 (General Statutory Duty) Order 2001* yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Hydref 2001.Mae copi o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.Mae'r Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ar gael ar y Rhyngrwyd ar:-http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000034.htm

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Derbyniwyd y cynnig**

***NNDM789*** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad yr holl swyddogaethau sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn neu o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2001 ac eithrio'r rhai hynny na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod. Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn effeithio ar ddarpariaethau Rheol Sefydlog 24.

Mae copi o'r Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2001 ar gael ar wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000034.htm

**Cynhaliwyd pleidlais**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Derbyniwyd y cynnig**

***NNDM788*** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog 24 ac wrth arfer ei bwerau o dan adran 71B(3) o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cartref, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 71(2) a (3) o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000), wneud y Race Relations Act 1976 (General Statutory Duty) Order 2001.

Mae copi o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

Mae'r Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ar gael ar y Rhyngrwyd ar:-http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000034.htm

Gosodwyd copi o'r *Race Relations Act 1976 (General Statutory Duty) Order 2001*, sydd yn yr arfaeth, yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Hydref 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Derbyniwyd y cynnig**

**10.20am**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Cymeradwyo'r Gyllideb Ddrafft**
*NDM786* Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.2, yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2002-2003, 2003-2004 a 2004-2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2001 gan y Gweinidog dros Gyllid, Edwina Hart.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**1. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

*Dileu'r atalnod llawn ac ychwanegu'r canlynol ar ddiwedd y cynnig:*

‘ond mae’n pryderu nad yw’r gyllideb yn ddigon i ddarparu’r system addysg y mae gan bobl Cymru hawl i’w disgwyl; nad yw’n cydnabod yr argyfwng gwledig sydd wedi gwaethygu’n ddybryd yn ystod y 12 mis diwethaf; ac nad yw’n cynnwys yr holl gyllid strwythurol o Ewrop fel adnoddau yn ychwanegol at Floc Barnett.

**2. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

*Dileu’r atalnod llawn ac ychwanegu’r canlynol ar ddiwedd y cynnig:*

‘ac yn galw ar y Gweinidog dros Gyllid i ailddechrau trafodaethau gyda’r Trysorlys yn Llundain i sicrhau digon o gyllid ar gyfer Cymru."

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 32; Cyfanswm 56

**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 23; Ymatal 1; Yn erbyn 32; Cyfanswm 56

**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig**
O blaid 32; Ymatal 16; Yn erbyn 8; Cyfanswm 56

**Derbyniwyd y cynnig**

**12.17pm**
**Dadl ar Sefydlu Comisiwn Dylunio i Gymru**
*NNDM785* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cadarnhau ei ymrwymiad i gefnogi safonau dylunio uchel ar gyfer datblygiadau yng Nghymru, a fydd yn cyfrannu at gynnal a gwella’r amgylchedd, at ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon ac at lwyddiant economaidd;

2. Yn cydnabod bod yr ymrwymiad hwn yn unol â’i swyddogaethau o dan adran 32 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i helpu i ddiogelu adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol, ac i gefnogi’r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol eraill yng Nghymru, yn ogystal â bod yn gysylltiedig â’i swyddogaethau lu ym meysydd cynllunio, yr amgylchedd, tai, llywodraeth leol,

addysg a datblygu economaidd.

3. Yn dwyn i gof y bwriad a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, fel rhan o’r fenter ddylunio a lansiwyd yn ystod haf 2000, i gyflwyno cynigion manwl ar gyfer sefydlu Comisiwn Dylunio i Gymru fel modd o gadw at yr ymrwymiad hwn;

4. Yn croesawu’r cynllun manwl a ddisgrifir yn y ddogfen "Establishing a Design Commission for Wales" a gafodd ei hanfon drwy’r e-bost at Aelodau’r Cynulliad ar 11 Hydref 2001;

5. Yn gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, ac yn ei hawdurdodi, i fynd ati cyn gynted ag y bo modd i sefydlu Comisiwn Dylunio i Gymru yn unol â’r cynllun hwnnw;

6. Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â’r Comisiwn Dylunio pan gaiff ei sefydlu ac eithrio’r rhai hynny na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw. Ni fydd dim yn y cynnig yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

Ym mhwynt 4 dileu "manwl".

**2. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

Ar ôl pwynt 4, gosod pwynt newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy’n weddill fel y bo’n briodol.

‘Yn cyfarwyddo bod y Comisiwn Dylunio yn hybu arferion dylunio sy’n gydnaws â Chynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad Cenedlaethol, gan hybu’r arferion gorau mewn effeithlonrwydd ynni, gwaredu gwastraff a chyfle i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.’

**3. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

Ar ôl pwynt 4, gosod pwynt newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy’n weddill fel y bo’n briodol.

‘Yn cyfarwyddo bod y Comisiwn Dylunio yn hybu arferion dylunio sy’n gydnaws â’r safonau gorau mewn perthynas â chyfle cyfartal a hybu cynhwysiant cymdeithasol.’

**4. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

Ar ôl pwynt 4, gosod pwynt newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n weddill fel y bo'n briodol.

'Yn cyfarwyddo bod y Comisiwn Dylunio yn talu sylw dyledus i hyrwyddo rhagoriaeth mewn datblygiadau cyffredin, megis ystadau tai ac unedau diwydiannol, yn ogystal â hybu rhagoriaeth mewn prosiectau o fri.'

**5. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

Ar ôl pwynt 4, gosod pwynt newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n weddill fel y bo'n briodol.

'Yn gofyn i'r Llywodraeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol, pan fyddant yn penodi cyfarwyddwyr i'r Comisiwn, roi sylw dyledus i sicrhau bod amrywiaeth o arbenigedd, gan gynnwys cynllunio, busnes a phensaernïaeth y dirwedd ar gael i'r Comisiwn.'

**6. Jocelyn Davies (Canol De Cymru);**

Ym mhwynt 5, gosod ar ôl "hwnnw"

'a bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn rhoi i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, er gwybodaeth, frîff llawn y Comisiwn Dylunio, gan gynnwys elfennau a gynhwysir yn y cynnig hwn, pan fydd ar gael."

Cynigiodd **David Davies** y dylid, o dan Reol Sefydlog 6.16, gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Pwnc.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig Trefniadol:**

O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 47

***Gwrthodwyd y Cynnig Trefniadol***

**Gwelliant 1**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48

**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2 Tynnwyd yn ôl**

**Gwelliant 3 Tynnwyd yn ôl**

**Gwelliant 4 Tynnwyd yn ôl**

**Gwelliant 5**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49

**Derbyniwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49

**Derbyniwyd Gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49

**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**12.43pm**
**Dadl Fer:**
***NDM787* Pauline Jarman (Canol De Cymru); Yr NHS yng Nghymru – Pam yr Holl Aros**

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.09pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 23 Hydref 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 16 HYDREF 2001**

Rheoliadau Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Diwygiadau Canlyniadol) (Ysgolion) (Cymru) 2001 - LD1012

Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001 - LD1013

Memorandwm Cywiriadau Atodol a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.13 - Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 - LD1011

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 15 HYDREF 2001**

The Seeds (National List of Varieties) Regulations 2001 - LD1010 (Dim copi Cymraeg ar gael)

**ADRODDIADAU'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 16 HYDREF 2001**

LC323 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001-LD1020

LC325 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) (Rhif 2) 2001-LD1021

LC327 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2001-LD1022

LC328 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Daganfod Gwerth) (Cymru) (Rhif 5) 2001-LD1023

LC332 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 9) 2001-LD1024

LC333 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Etholiadau: Papurau Enwebu) (Ffuflen Gymraeg) 2001 - LD1025

LC334 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Diwygio) (Cymru) 2001 - LD1026

LC340 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2001 - LD1027

LC335 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau: Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2001 - LD1028